# <u>Cofnodion o Gyfarfod Blynyddol Cyngor Cymuned Ciliau Aeron a gynhaliwyd ar yr 2il o Orffennaf 2020 am 7:30 o'r gloch drwy fynychu o bell</u>

**<u>Yn bresennol:</u>** Y Cynghorydd John Lumley (Cadeirydd), Y Cynghorwyr Helen Evans, Arwel Jones, Gwyndaf Morgan, Alwen Thomas ac Iwan Thomas.
Y Cynghorydd Sir Marc Davies
Denfer Morgan (Clerc).

**393 Personol ac Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd y Cynghorwyr Nigel Davies, Robert Davies, Dai Evans a Ray Williams am fethu a bod yn bresennol yn y cyfarfod.

Fe estynnodd y Cadeirydd groeso i'r Aelodau i'r Cyfarfod Blynyddol.

**394 <u>Cofnodion o Gyfarfod Blynyddol 2020</u>**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cofnodion o'r Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd ar 2il Gorffennaf 2020 fel rhai cywir.

**395 <u>Ethol Cadeirydd</u>**

**PENDERFYNWYD** ethol y Cynghorydd Iwan Thomas yn Gadeirydd ar gyfer y blynyddoedd bwrdeistrefol 2021-22 a 2022-23.

Diolchodd y Cadeirydd I'r Cynghorydd Lumley am ei wasanaeth fel cadeirydd I'r Cyngor a'r gymuned ac am arwain yn ystod y cyfnod anodd hwn.

**396 <u>Datganiad o Dderbyn Swydd y Cadeirydd</u>**

Gwnaed y Datganiad o Dderbyn y Swydd gan Gadeirydd y Cyngor, y Cynghorydd Iwan Thomas.

**397 <u>Ethol Is-gadeirydd</u>**

**PENDERFYNWYD** ethol y Cynghorydd Robert Davies yn Is-gadeirydd y Cyngor ar gyfer blynyddoedd bwrdeistrefol 2021-22 a 2022-23. .

**398 Datganiad o Dderbyn Swydd yr Is-gadeirydd**

Gwnaed y Datganiad o Dderbyn y Swydd gan Is-Gadeirydd y Cyngor, y Cynghorydd Robert Davies.

**399 Ethol Cynrychiolwyr i Un Llais Cymru**

**Etholwyd** y Cynghorwyr Gwyndaf Morgan a John Lumley i gynrychioli’r Cyngor ar Un Llais Cymru.

Daeth y Cyfarfod i ben am 7:55 y.h.